# ASESIAD EFFAITH PROFI GWLEDIG

## Cyflwyniad

Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety i ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanarlwyo. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru, drwy sicrhau ymwelwyr bod llety yn bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl a darparu trefn glir i ddarparwyr.

Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf VARL"). O dan y Ddeddf honno, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (WRA) yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn manylu ar y math o safleoedd y maent yn eu gweithredu ledled Cymru a'u lleoliad. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

Bydd y Bil yn ategu mesurau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Canlyniad eilaidd y Bil hwn fydd sicrhau mwy o gysondeb rhwng y drefn rheoleiddio llety ymwelwyr hunanarlwyo â threfn rheoleiddio'r sector preifat, gan gyflwyno safonau cyson ar gyfer y llety hwnnw, a monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hynny.

Mae'r Bil hefyd yn creu Cod Cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r bwriad o wella hygyrchedd deddfwriaeth ym maes twristiaeth.

[The Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Bill ("the Bill") provides the legislative framework for a licensing scheme for visitor accommodation in Wales, starting with self-catering accommodation. This scheme will support tourism in Wales, by reassuring visitors that accommodation meets the standards they would expect and providing a clear regime for providers.

The licensing scheme will build upon the register of visitor accommodation providers as set out in its companion legislation, the Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Act 2025 ("the VARL Act"). Under that Act, the Welsh Revenue Authority (WRA) will establish, maintain and publish the register of providers, which will also detail the type and location of the premises they operate across Wales. This information may be of

interest to local authorities, visitors, businesses and researchers, and will inform the future licensing scheme.

The Bill will complement other measures introduced by the Welsh Government to address the challenges arising from a concentration of second homes and short-term holiday lets in particular areas in Wales. A secondary outcome of this Bill will be to align more closely regulation of self-catering visitor accommodation with the regulation of the private rented sector, ensuring consistent standards for that accommodation, and monitoring compliance with those standards.

The Bill also creates a Code of Welsh law on tourism that will incorporate existing legislation on the development of tourism in Wales, with a view to improving the accessibility of tourism legislation. Add boilerplate text]

# Beth yw ystyr Cymru Wledig?

Nid oes un diffiniad o'r gair gwledig sy'n berthnasol i bob diben. Ni allwn osgoi'r ffaith bod busnesau gwledig ledled Cymru, gan gynnwys yn y rhannau hynny o Gymru a ystyrir yn drefol yn aml. Fodd bynnag, at ddibenion yr asesiad hwn, rydym wedi defnyddio diffiniad eang Ystadegau Cymru o'r hyn sy'n wledig.

Y naw awdurdod lleol yng Nghymru yr ystyrir eu bod yn lled wledig yw Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gâr a Sir Fynwy. O fewn y diffiniad hwn, mae Cymru wledig yn cyfrif am tua 80% o'r màs o dir. Gydag ychydig mwy na miliwn o bobl, mae hefyd yn cyfrif am tua un rhan o dair o boblogaeth Cymru.

Gall twristiaeth ddylanwadu ar gymunedau lleol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Ein dyhead yw tyfu twristiaeth er budd Cymru. Gall effeithiau economaidd cadarnhaol twristiaeth gynnwys creu mwy o swyddi a chyfleoedd cyflogaeth, cynnydd mewn incwm aelwydydd a safonau byw gwell. Gall effeithiau economaidd negyddol twristiaeth gynnwys cynnydd mewn costau byw, cynnydd mewn prisiau eiddo, nwyddau a chynhyrchion eraill, a chynnydd mewn trethi eiddo.

Gall twristiaeth wella argaeledd cyfleusterau hamdden mewn cymunedau, gwella dealltwriaeth o hunaniaeth ddiwylliannol ac iaith, a hyrwyddo'r broses o warchod ac adfywio celfyddydau traddodiadol, diwylliant ac iaith. Gall effeithiau cymdeithasol negyddol twristiaeth gynnwys gorlenwi cyfleusterau a gwasanaethau, ynghyd â thagfeydd traffig ar ffyrdd, cynnydd mewn lefelau troseddau a sbwriel.

O safbwynt amgylcheddol, mae effeithiau negyddol posibl twristiaeth yn cynnwys niwed i'r amgylchedd naturiol, a mwy o lygredd aer, dŵr a mathau eraill o lygredd amgylcheddol.

Gall fod rhai gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol o ran y modd y caiff yr effeithiau hyn eu gwireddu. Mae gweithredwyr twristiaeth wledig yn tueddu i fod yn gwmnïau teuluol llai, sy'n tarddu o'r gymuned leol ac yn aml sy'n arddangos cynhyrchion amaethyddol lleol a gweithgareddau diwylliannol. Gall twristiaeth wledig ysgogi cynhyrchiant economaidd lleol drwy greu gwasanaethau a chyfleoedd am swyddi sy'n rhoi budd economaidd i'r ardal. Er enghraifft, mae twristiaeth wledig o fudd i gymunedau lleol drwy roi ffynhonnell atodol o incwm i'r sectorau ffermio a gwasanaethau. Gall hyn gefnogi'r economi lleol â ffynonellau newydd o incwm a chyflogaeth a gaiff eu creu drwy dwristiaeth.

Y prif wahaniaeth rhwng twristiaeth wledig a threfol yw, mewn dinasoedd neu ardaloedd mwy adeiledig, mae'r gweithgareddau wedi'u hintegreiddio â gweithgareddau trefol eraill. Mae twristiaid yn defnyddio llawer o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a geir mewn dinasoedd, y mae rhai ohonynt yn cael eu darparu'n benodol ar gyfer twristiaid. Er mai trigolion trefol yw'r prif fuddiolwyr a fwriedir ar gyfer y rhan fwyaf o gyfleusterau trefol, fel trafnidiaeth gyhoeddus, ffyrdd, seilwaith a gwasanaethau, maent hefyd ar gael i dwristiaid eu defnyddio. Fodd bynnag, gan fod gan ddinasoedd sylfaen economaidd eang fel arfer, mae'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth seilwaith yn llai uniongyrchol yn enwedig ar gyfer ymwelwyr, sydd hefyd o fudd i drigolion, ac mae'r ddibyniaeth economaidd ar dwristiaeth yn is.

# Ffeithiau allweddol am ymwelwyr i Gymru

Mae twristiaeth yn chwarae rôl hollbwysig yn economi Cymru. Roedd diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn cyfrif am 11.8% o gyflogaeth (159,000 o swyddi) a 5.1% o GVA (£3.8 biliwn) Cymru yn 2022[1]. https://www.llyw.cymru/proffil-economi-ymwelwyr-cymru-2024-html

Cafwyd mwy na 69 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2023, gan gynrychioli gwariant cyfunol o fwy na £4.95 biliwn yn economi Cymru. Roedd 8.65 miliwn o'r ymweliadau hyn yn arosiadau dros nos, gan gynrychioli gwariant o fwy na £2 biliwn[2]. https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru

Ein huchelgais yw cynyddu twristiaeth er budd Cymru mewn ffordd sy'n cefnogi cymunedau lleol ffyniannus ac sy'n gynaliadwy i'r amgylchedd a phobl Cymru.

Mae ymweliadau â Chymru, a'u heffeithiau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig, wedi'u rhannu rhwng rhanbarthau Cymru. Fodd bynnag, gall maint diwydiannau sy'n

[1] Proffil economi ymwelwyr Cymru:2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (teithiau undydd): 2022 i 2023 (diwygiedig) | LLYW.CYMRU
Ymweliadau a gwariant rhyngwladol gan ymwelwyr â Chymru [HTML] | LLYW.CYMRU;

ymwneud â thwristiaeth amrywio'n fawr rhwng ardaloedd lleol, gan gyfrif am hyd at 20% o gyflogaeth yn Sir Benfro ac ar Ynys Môn, ond dim ond 7.5% yn Wrecsam yn 2022[3]. Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Hyd yn oed ar lefel awdurdod lleol, nid yw'r effeithiau hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae eiddo sydd wedi'u rhestru ar Airbnb, er enghraifft, wedi'u crynhoi mewn ardaloedd mynyddig ac arfordirol ac mewn rhai awdurdodau lleol mae eiddo rhestredig wedi'u crynhoi mewn nifer bach o ardaloedd[4] https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2022/09/Holiday-lets-and-the-private-rental-sector.pd. Gall y crynhoad hwn o lety gwyliau mewn cymunedau penodol ddod â manteision, megis y potensial i gynhyrchu incwm a chyflogaeth ychwanegol mewn diwydiannau cysylltiedig, yn ogystal ag achosi pryderon megis lleihau nifer y tai sydd ar gael, achosion o darfu sy'n ymwneud â pharcio, a chyfrannu at ysbwriel a llygredd, fel y nodwyd gan astudiaeth o agweddau at drwyddedu llety ymwelwyr yn 2023[5]. https://www.llyw.cymru/cynllun-trwyddedu-statudol-i-ddarparwyr-llety-ymwelwyr-barn-defnyddwyr-phreswylwyr

Mae darpariaeth llety ymwelwyr wedi newid yn sylweddol ers i Airbnb ehangu i'r DU yn 2009 ac ers i wefannau eraill megis Booking.com, VRBO ac Expedia ymuno â'r un farchnad. Erbyn mis Mai 2022 roedd 21,718 o eiddo yng Nghymru wedi'u rhestru ar Airbnb yn unig[6] https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2022/09/Holiday-lets-and-the-private-rental-sector.pdf ac yn rhifyn mis Mai o'n Baromedr Twristiaeth[7], Baromedr Twristiaeth: cam yr Mai 2023 | LLYW.CYMRU roedd 75% o'r darparwyr llety a gyfwelwyd yn hyrwyddo eu llety gan ddefnyddio o leiaf un llwyfan ar-lein. Nododd 49% o'r darparwyr llety hunanddarpar a gyfwelwyd eu bod yn defnyddio Airbnb. Mae'r rhesymau pam mae pobl yn dewis gosod eiddo gan ddefnyddio'r llwyfannau hyn yn amrywio'n fawr[8]. What motivates people to become Airbnb hosts - do we know enough? – an exploration of the literature | Research in Hospitality Management. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'r graddau y mae llwyfannau archebu ar-lein wedi agor y farchnad llety ymwelwyr i amrywiaeth o ddarparwyr newydd, rhai sy'n gweithredu'n fasnachol a rhai sy'n gweithredu'n anffurfiol iawn neu'n achlysurol.

Nodir y problemau a oedd yn gysylltiedig ag amcangyfrif nifer yr eiddo sydd wedi'u gosod yng Nghymru, tra'n aros i'r gofrestr o'r [Bil/Ddeddf] VARL gael ei chyflwyno, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ond yn arolwg Stoc Welyau Cymru 2022, roedd lleoliadau llety hunanddarpar (a ddiffinnir ar gyfer yr arolwg fel llety o fath heb wasanaeth gan gynnwys bythynnod, tai, byngalos, fflatiau a chabanau gwyliau) yn cyfrif

[3] Proffil economi ymwelwyr Cymru:2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

[4] Bevan Foundation: Holiday lets and the private rental sector

[5]Cynllun trwyddedu statudol ar gyfer darparwyr llety i ymwelwyr: barn defnyddwyr a phreswylwyr | LLYW. CYMRU

[6] Bevan Foundation: Holiday lets and the private rental sector

[7] **Baromedr Twristiaeth: cam yr Mai 2023 | LLYW.CYMRU**

[8]What motivates people to become Airbnb hosts – do we know enough? — an exploration of the literature | Research in Hospitality Management

am 73% o gyfanswm y busnesau llety yng Nghymru9. https://www.llyw.cymru/crynodeb-o-ddata-ynghylch-stoc-welyau-cymru-y-sefyllfa-ym-mis-mehefin-2022-htmll. Maent yn cynrychioli nifer llai o gyfanswm y gwelyau, gan fod safleoedd carafanau, safleoedd gwersylla a gwestai, er enghraifft, yn darparu llawer mwy o lety mewn un lleoliad a'u bod yn haws i'w cofnodi mewn arolwg o'r fath.

## Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig

Nod Llywodraeth Cymru yw tyfu twristiaeth er budd Cymru drwy gefnogi cymunedau lleol mewn ffordd sy'n gynaliadwy ar gyfer tir ac amgylchedd Cymru, gan ddatblygu fframwaith sydd o fudd i ymwelwyr a dinasyddion fel ei gilydd.

Fodd bynnag, mae'r dirwedd a asesir gennym yn newid, sy'n ein hatal rhag cynnal asesiad manwl o effaith ychwanegol, gynyddrannol y polisi hwn. Er enghraifft, megis dechrau y mae effaith y cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi, ac nid yw effaith yr ardoll ymwelwyd wedi dechrau dod i'r amlwg eto. Felly, ni allwn ragweld yn ddiogel a fydd trwyddedu a chodi safonau diogelwch yn effeithio ar niferoedd ymwelwyr.

Hefyd, mae ffactorau ehangach yn dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a chyflogwyr gan gynnwys y cyd-destun macro-economaidd. Ni fyddai disgrifio union effaith economaidd y cynllun trwyddedu yn ddichonadwy. Mae nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr. *Nododd yr Adroddiad ar y Galw yn y Farchnad Dwristiaeth gan Croeso Cymru – y DU Ionawr 2023 (sleidiau 76/77) y rhwystrau i ymweld â Chymru yn 2023 (a oedd yn debyg i 2022). Y prif resymau oedd y pellter teithio a bod pobl am gwtogi ar deithiau o fewn y DU. Nodwyd fforddiadwyedd, lleihau ôl-troed carbon, amgylchiadau personol, ymweld â chyrchfannau eraill a'r tywydd fel rhesymau hefyd.*

Gallai gwelliannau i'r seilwaith a gwasanaethau lleol arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal, gan ennyn mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth. Er enghraifft, mae twristiaeth yn sector arallgyfeirio pwysig i'r diwydiant ffermio gyda'r posibilrwydd o wneud cyfraniad sylweddol i economïau ardaloedd gwledig.

## Cyflogaeth a'r economi

[9] Crynodeb o Ddata ynghylch Stoc Welyau Cymru: y sefyllfa ym mis Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU

Mae'r economi ymwelwyr yn ffynhonnell swyddi a thwf economaidd bwysig ledled Cymru. Mewn perthynas ag ardaloedd gwledig ac arfordirol, mae twristiaeth yn gyfrannwr economaidd mawr gan ddarparu cyfran fwy o lawer o gyflogaeth a buddsoddiad yn yr economi leol.

Cydnabyddir bod y sector twristiaeth wedi'i nodweddu gan lawer o fusnesau bach neu ficro-fusnesau. Mae'r busnesau llai o faint hyn yn tueddu i weithredu ar faint elw is ac yn aml nid oes ganddynt gynlluniau clustogi economaidd sylweddol. Gall newidiadau bach olygu na allant ymdopi cystal ag effaith unrhyw newidiadau mewn prisiau a chostau gweinyddol ychwanegol. Felly, gall y broses gysylltiedig o weinyddu'r drwydded olygu mwy o faich i'r busnesau hyn, yn enwedig y rhai â systemau llai soffistigedig. Mae'r baich hwn yn fwy i'r busnesau hynny sydd â llai o brosesau digidol. Ystyrir effeithiau hyn *cyhyd ag y bo'n bosibl* yn ein hadolygiad ar ôl gweithredu, y nodir y cynlluniau ar ei gyfer yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Roedd diwydiannau twristiaeth yn cyfrif am 11.8% o gyflogaeth (159,000) yng Nghymru yn 2022, i lawr o 161,000 yn 2019 (12.1% o gyflogaeth yng Nghymru) pan oedd lefelau cyflogaeth cyffredinol yng Nghymru yn ddigyfnewid. Yn rhanbarthol, yng Nghanolbarth Cymru, roedd 13.2% o gyflogaeth mewn diwydiant twristiaeth yn 2020, y gyfran fwyaf o'r pedwar rhanbarth, o gymharu â dim ond 10.0% yn Ne-ddwyrain Cymru. Gellir gweld patrwm tebyg dros y blynyddoedd diwethaf, gyda Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gweld y gyfran fwyaf o gyflogaeth mewn diwydiannau twristiaeth, a De-ddwyrain Cymru yn gweld y gyfran isaf. Ceir amrywiad sylweddol o fewn rhanbarthau a ledled y wlad. Yn Sir Benfro ac Ynys Môn, roedd 20% o gyflogaeth mewn diwydiannau twristiaeth, y gyfran uchaf o'r holl awdurdodau lleol, ac yn Wrecsam y gwelwyd y lefelau isaf, sef dim ond 6%.  Mae effeithiau chwyddiant yn anghymesur mewn ardaloedd gwledig. Tynnwyd sylw at y rhain yn ein trafodaethau â'r sector. Gall darparwyr llety i ymwelwyr mewn ardaloedd gwledig wynebu costau uwch oherwydd lleoliad unigryw eu harlwy. Gall y rhain gynnwys costau trafnidiaeth ac ynni uwch. Hefyd, gall fod heriau eraill yn gysylltiedig â recriwtio gan fod cronfa lai o weithwyr ar gael mewn ardaloedd gwledig.

## Cymunedau

Pan oedd yn casglu tystiolaeth am ardoll ymwelwyr, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil ar ddefnyddwyr i gael safbwyntiau trigolion Cymru ac ymwelwyr domestig o'r DU. Wrth ystyried twristiaeth yn eu hardaloedd lleol eu hunain, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y manteision yn gwrthbwyso'r anfanteision. Er enghraifft, nododd sawl un y graddau y mae busnesau lleol yn dibynnu ar dwristiaeth. Hefyd, i rai roedd elfen o falchder yn gysylltiedig â byw mewn ardal boblogaidd. Nododd gwaith ymchwil pellach ar ddefnyddwyr i gefnogi'r broses o ddatblygu'r cynllun trwyddedu mai effeithiau negyddol canfyddedig mwyaf cynyddu nifer y llety ymwelwyr yw sbwriel neu lygredd (roedd 50% o'r farn eu bod yn cael effaith gymharol negyddol/negyddol iawn), pa mor hawdd yw parcio (47%) a gallu pobl leol i ddod i hyd i dŷ i'w rentu neu i'w brynu yn y gymuned (41%).

**Nid yw'r cynllun trwyddedu yn dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau rheilffyrdd neu ffyrdd da. Fodd bynnag, gallai fod effeithiau ar fusnesau mewn perthynas â chysylltedd digidol.** Rydym yn bwriadu helpu'r rhai sydd â mynediad a sgiliau digidol cyfyngedig. Gall hyn gynnwys opsiynau amgen annigidol os byddai'n gymesur gwneud hynny.

**Rydym yn cydnabod, er bod achosion sylfaenol tlodi mewn ardaloedd gwledig yr un fath ag mewn ardaloedd trefol, gall y profiad o amddifadedd fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig. Maent hefyd yn cymryd mwy o amser i ddod i'r amlwg yng Nghymru wledig oherwydd teneurwydd y boblogaeth.** Ni fydd y cynllun trwyddedu yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion fel **tlodi tanwydd (gan gynnwys tanwydd gwresogi a thrafnidiaeth), tlodi mewn gwaith, mynediad i wasanaethau ac allgáu digidol.**

**Tai**

Mae tai yn her fawr i rai cymunedau gwledig, o ran y cyflenwad o gartrefi i bobl leol a'u fforddiadweydd. Mae sawl ardal wledig wedi gweld twf mewn perchnogaeth ail gartrefi. Yn ei adroddiad ar Ail gartrefi, mae Dr Simon Brookes yn awgrymu bod mwy na 24,000 o ail gartrefi yng Nghymru, gyda'r niferoedd mwyaf yng Ngwynedd a Sir Benfro.

Mae ail gartrefi a llety gwyliau yng Ngwynedd yn cyfrif am fwy na 10 y cant o gyfanswm y stoc tai. Mae Cyngor Sir Gwynedd wedi ymateb drwy godi ardoll premiwm o 150% ar y dreth gyngor ar gyfer eiddo o'r fath. Argymhellodd gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar ran Cynghorau Gwynedd a Chaerdydd yn 2020 drwyddedu fel un o'r camau y gellid eu cymryd i helpu i reoli'r effaith hon a sicrhau, pan fydd tai yn cael eu defnyddio fel llety ymwelwyr, eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol.

Mae perchnogaeth ail gartrefi hefyd yn gysylltiedig â chynnydd mewn prisiau tai – yn aml mewn ardaloedd lle mae cyflogau cyfartalog yn isel iawn – gan arwain at bobl leol yn cael eu hallgáu o'r farchnad dai yn eu cymunedau ac at wanedu diwylliannol yn sgil hynny. Mae adroddiad Brookes yn cyfeirio at Abersoch yn Nwyfor, lle mae 46% o'r stoc dai yn gartrefi gwyliau a lle roedd prisiau tai cyfartalog yn £365,275 ym mis Medi 2019.

Mae lefelau uchel o berchnogaeth ail gartrefi yn effeithio ar anfanteision posibl eraill i gymunedau gwledig. Ymysg y rhain mae pentrefi gwag yn y gaeaf, gyda'r effaith ddilynol ar hyfywedd gwasanaethau lleol, prinder tai fforddiadwy neu safleoedd i'w datblygu a bygythiad i'r Gymraeg wrth i'r bobl leol gael eu hallgáu.

**Diwylliant Cymru a'r Gymraeg**

Mae'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer y Bil hwn yn disgrifio'r ffaith na ellir gwahanu'r iaith oddi wrth wead cymdeithasol sawl rhan o Gymru. Mewn ymateb i'r argymhellion yn Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg, nododd Llywodraeth Cymru

pa mor bwysig yw'r sector twristiaeth ac economi ymwelwyr i'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r economi sylfaenol.

Y mesurau lliniaru arfaethedig

Wrth baratoi i gyflwyno Deddf Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. Cymru, cynhaliodd Awdurdod Refeniw Cymru waith ymchwil ar ddefnyddwyr ag amrywiaeth o ddarparwyr llety ledled Cymru.Maent yn parhau i wneud hyn wrth iddynt ddatblygu'r gwasanaeth ardoll ymwelwyr. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn â chyrff cynrychioliadol yn y cymunedau twristiaeth a ffermio wedi helpu i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd er mwyn deall yr effaith arnyn nhw, ac mae'n parhau i wneud hynny. Ein ond yw gwneud gwaith tebyg i gefnogi'r broses drwyddedu.

**Hyfforddiant ac arweiniad**

Mae'n bwysig ein bod yn ceisio barn rhanddeiliaid gwledig, er mwyn deall eu materion penodol yn fwy manwl. Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid, i ddeall yr effeithiau posibl a byddwn yn datblygu sesiynau arweiniad a hyfforddiant i gefnogi darparwyr llety ymwelwyr drwy'r broses drwyddedu. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i helpu rhanddeiliaid fel darparwyr llety ymwelwyr, awdurdodau lleol a'r cyhoedd i ddehongli'r ddeddfwriaeth a'r polisïau.

Ein nod yw y bydd y canllawiau a ddatblygir yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau statudol presennol i gyrff cyhoeddus. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i "give due consideration to its statutory duties to carry out equality impact assessments". Hefyd, mae gan yr awdurdod ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru i ystyried y modd y mae ei bolisi yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym hefyd wedi cynnal asesiadau effaith llawn ar yr effaith ar gydraddoldeb, ac effaith economaidd-gymdeithasol y Bil lle caiff yr agweddau hyn eu hystyried yn fwy manwl.

**Dyluniad y cynllun**

Mae'r cynllun yn cael ei ddylunio gyda'r nod o fod yn syml, er mwyn lleihau unrhyw faich gweinyddol a sicrhau effeithlonrwydd i ddarparwyr llety ymwelwyr a'r awdurdod trwyddedu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd dull rhagofalus wrth bennu ffi'r drwydded ac mae'n monitro'r effaith dros amser. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn nodi y dylid codi ffioedd yn unol â chostau. Mae sawl elfen y gellir eu hystyried wrth fesur cost gwasanaeth. Mae sawl elfen na ellir eu cynnwys hefyd. Felly, mae'n hanfodol bod y gost yn cael ei chyfrifo'n gywir.

Ymgynghori ac ymgysylltu

**Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi manylion ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn nodi safbwyntiau penodol y cyrff cynrychioliadol yn y sector gwledig.**

Ymatebodd y Gymdeithas Gwlad a Thir ac Undeb Amaethwyr Cymru i'n hymgynghoriad. Roedd y ddau gorff yn awyddus i ddangos bod cysylltiad cynhenid rhwng ffermio a thwristiaeth, gyda llawer o fusnesau ffermio yn gweithredu mentrau twristiaeth.

Mae'r ddau gorff yn nodi bod busnesau ffermio wedi dod yn fwyfwy dibynnol ar yr economi ymwelwyr i ategu a chefnogi eu hincwm amaethyddol. Hefyd, roeddent yn pryderu mai meintiau elw bach a geir ar gyfer busnesau llety gwyliau hunanddarpar.

Roedd pryderon ynghylch y costau ariannol cynyddol y mae angen i fusnesau eu hystyried eisoes, fel y cynnydd yn y diwrnodau trothwy i fod yn gymwys i gael ardrethi busnes a'r ardoll ymwelwyr arfaethedig. Codwyd y pwynt hwn gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar yr ardoll ymwelwyr.

Roedd y tri chorff yn pryderu y bydd yn heriol ymdopi ag unrhyw gostau ychwanegol, yn enwedig y busnesau llai hynny mewn ardaloedd gwledig. Mae'r materion hyn wedi ffurfio rhan o ystyriaethau Llywodraeth Cymru wrth lunio'r Bil drafft hwn.

Tystiolaeth i lywio'r asesiad.

**Un rhan hanfodol o lunio achos cynhwysfawr a chytbwys ar gyfer polisi a deddfwriaeth yw arfarnu'r effaith y mae'n debygol o'i chael yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae ardaloedd gwledig yn wynebu heriau a gwelir llawer o'r heriau hyn fel ynysigrwydd daearyddol, poblogaeth sy'n heneiddio ac economi sy'n seiliedig ar ficro-fusnesau a BBaCh ledled Cymru. Mewn ardaloedd gwledig, gall y rhain fod yn fwy difrifol neu gyfuno i greu cyfres o amgylchiadau a all amharu ar y gallu i roi polisïau a deddfwriaeth ar waith yn effeithiol.**

Wrth ddatblygu deddfwriaeth, rydym yn dadansoddi'r effaith amcangyfrifedig ar anghenion pobl sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn cynnal busnes yng Nghymru.

Defnyddiwyd data swyddogol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru lle bo hynny ar gael. Fodd bynnag, mae bylchau mawr yn y data twristiaeth yng Nghymru sydd eu hangen i lywio'r asesiad hwn. Er enghraifft, nid yw data sy'n ymwneud â'r rhai sy'n gweithio mewn busnesau llety ymwelwyr yng Nghymru yn cael eu dadansoddi yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol. Felly, mae'n anodd dod i gasgliadau ynghylch i ba raddau y bydd y cynllun trwyddedu yn effeithio ar bobl.

Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth gan Alma Economics ar ran Llywodraeth Cymru i ystyried elastigedd prisiau posibl y galw am dwristiaeth yng Nghymru. Cyfyngiad pwysig i'r gwaith hwn yw nad oes unrhyw astudiaethau Cymreig penodol i dynnu arnynt ac mae'r rhan fwyaf o astudiaethau yn ystyried llif teithwyr rhyngwladol mewnol yn

hytrach na marchnadoedd domestig. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o'n hymwelwyr yn drigolion y DU.

Ffynhonnell arall yr ydym wedi cyfeirio ati yn rheolaidd yw'r Baromedr Twristiaeth. Mae'n rhoi cipolwg ar berfformiad y diwydiant yng Nghymru ar ôl digwyddiadau pwysig yn y calendr twristiaeth.

Yn eistedd ochr yn ochr â'r setiau data hyn, mae casgliad o ffynonellau data. Mae hyn yn tynnu at ei gilydd niferoedd yr ymwelwyr a llety ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau (â gwasanaeth, hunanarlwyo, gwersylla/carafanau, hosteli). Er nad yw'r data hyn yn gyfrif swyddogol o eiddo, mae'n cael eu cynnwys i dynnu sylw at faint posibl y sector. Mae'r ffigurau yn darparu rhywfaint o gyd-destun defnyddiol i ddechrau cael syniad o effeithiau posibl a chostau gweithredu.

Rydym hefyd wedi ystyried adborth a gawsom fel rhan o'r ymgyngoriadau ar gyfer y cynllun trwyddedu a'r ardoll ymwelwyr. Mae rhagor o wybodaeth am hyn, a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau rhanddeiliaid ar gael yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

Mae'r cyfeiriadau penodol yr ydym wedi'u defnyddio wrth ystyried yr effeithiau, wedi'u rhestru ar ddiwedd y ddogfen hon.

Wrth ddatblygu deddfwriaeth, rydym yn dadansoddi'r effaith amcangyfrifedig ar anghenion pobl sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn cynnal busnes yng Nghymru.

Defnyddiwyd data swyddogol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru lle bo hynny ar gael. Fodd bynnag, mae bylchau mawr yn y data twristiaeth yng Nghymru sydd eu hangen i lywio'r asesiad hwn. Er enghraifft, nid yw data sy'n ymwneud â'r rhai sy'n gweithio mewn busnesau llety ymwelwyr yng Nghymru yn cael eu dadansoddi yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol. Felly, mae'n anodd dod i gasgliadau ynghylch i ba raddau y bydd y cynllun trwyddedu yn effeithio ar bobl.

Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth gan Alma Economics ar ran Llywodraeth Cymru i ystyried elastigedd prisiau posibl y galw am dwristiaeth yng Nghymru. Cyfyngiad pwysig i'r gwaith hwn yw nad oes unrhyw astudiaethau Cymreig penodol i dynnu arnynt ac mae'r rhan fwyaf o astudiaethau yn ystyried llif teithwyr rhyngwladol mewnol yn hytrach na marchnadoedd domestig. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o'n hymwelwyr yn drigolion y DU.

Ffynhonnell arall yr ydym wedi cyfeirio ati yn rheolaidd yw'r Baromedr Twristiaeth. Mae'n rhoi cipolwg ar berfformiad y diwydiant yng Nghymru ar ôl digwyddiadau pwysig yn y calendr twristiaeth.

Yn eistedd ochr yn ochr â'r setiau data hyn, mae casgliad o ffynonellau data. Mae hyn yn tynnu at ei gilydd niferoedd yr ymwelwyr a llety ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau (â gwasanaeth, hunanarlwyo, gwersylla/carafanau, hosteli). Er nad yw'r data hyn yn gyfrif swyddogol o eiddo, mae'n cael eu cynnwys i dynnu sylw at faint posibl y sector. Mae'r ffigurau yn darparu rhywfaint o gyd-destun defnyddiol i ddechrau cael syniad o effeithiau posibl a chostau gweithredu.

Rydym hefyd wedi ystyried adborth a gawsom fel rhan o'r ymgyngoriadau ar gyfer y cynllun trwyddedu a'r ardoll ymwelwyr. Mae rhagor o wybodaeth am hyn, a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau rhanddeiliaid ar gael yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

Mae'r cyfeiriadau penodol yr ydym wedi'u defnyddio wrth ystyried yr effeithiau, wedi'u rhestru ar ddiwedd y ddogfen hon.